**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 (Estyn Dyddiad Dod i Ben) 2026**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Drysorlys Cymru ac fe’i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â’r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

## Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet

Yn fy marn i, mae’r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 (Estyn Dyddiad Dod i Ben) 2026. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau’r costau tebygol.

**Mark Drakeford AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg**
**24 Chwefror 2026**

# RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

## 1. Disgrifiad

1.1 Trwy Reoliadau Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 (Estyn Dyddiad Dod i Ben) 2026 (“y Rheoliadau”), mae Gweinidogion Cymru yn cynnig estyn y cyfnod y caiff Gweinidogion Cymru arfer y pŵer gwneud rheoliadau a ddarperir o dan adran 1 o Ddeddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 (“Deddf 2022”) i ddod â newidiadau i ddeddfwriaeth trethi Cymru a restrir yn adran 1(3) o Ddeddf 2022 (“Deddfau Trethi Cymru”) i rym.

1.2 Mae’r Rheoliadau yn estyn y cyfnod y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau gan ddefnyddio’r pŵer yn adran 1 o Ddeddf 2022, o 9 Medi 2027 i 30 Ebrill 2031. Nid yw estyniadau pellach yn bosibl. Dim ond unwaith y caiff yr estyniad ei wneud a hyd at 30 Ebrill 2031 fan bellaf.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae adran 1(1) o Ddeddf 2022 yn rhoi pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i addasu Deddfau Trethi Cymru os ydynt o’r farn bod yr addasiadau yn angenrheidiol at y dibenion a nodir yn adran 1(1)(a) i (d) o Ddeddf 2022:

a. sicrhau na chaiff treth gwarediadau tirlenwi na threth trafodiadau tir eu gosod lle byddai gwneud hynny yn anghydnaws ag unrhyw rwymedigaethau rhyngwladol;

b. diogelu rhag achosion o osgoi trethi mewn perthynas â threth gwarediadau tirlenwi neu dreth trafodiadau tir;

c. ymateb i newid i dreth ragflaenol sy’n effeithio, neu a allai effeithio, ar y symiau a delir i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 118(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;

d. ymateb i benderfyniad llys neu dribiwnlys sy’n effeithio ar weithredu unrhyw rai o Ddeddfau Trethi Cymru neu reoliadau a wneir o dan unrhyw un o’r Deddfau hynny, neu a all effeithio ar hynny.

3.2 Mae adran 7(1) o Ddeddf 2022 yn darparu y daw’r pŵer gwneud rheoliadau o dan adran 1 o Ddeddf 2022 i ben ar ddiwedd y cyfnod o 5 mlynedd sy’n dechrau â’r diwrnod y daeth Deddf 2022 i rym. Cafodd Deddf 2022 y Cydsyniad Brenhinol ar 8 Medi 2022 a daeth i rym ar 9 Medi 2022 (adran 9 o Ddeddf 2022). Daw’r pŵer o dan adran 1 o Ddeddf 2022 i ben ar 8 Medi 2027.

3.3 Mae adran 7(2) o Ddeddf 2022 yn rhoi pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i estyn dyddiad dod i ben y pŵer gwneud rheoliadau o dan adran 1, yn amodol ar fodloni'r amodau a ganlyn:

- dim ond unwaith y gellir arfer y pŵer a hynny drwy offeryn statudol (adran 7(3) o Ddeddf 2022),
- ni chaniateir gosod fersiwn ddrafft o'r offeryn statudol gerbron Senedd Cymru cyn cyhoeddi casgliadau'r adolygiad o dan adran 6 o Ddeddf 2022 (adran 7(5)(a) o Ddeddf 2022), ac
- ni chaiff Senedd Cymru gymeradwyo fersiwn ddrafft o'r offeryn statudol ar ôl 8 Medi 2027 (adran 7(5)(b) o Ddeddf 2022).

3.4 Mae rheoliadau o dan adran 7(2) i'w gwneud drwy weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

3.5 Mae'r amodau hyn wedi eu bodloni oherwydd nad yw pŵer gwneud rheoliadau adran 7(2) wedi'i arfer o'r blaen; cyhoeddwyd casgliadau'r adolygiad o dan adran 6 o Ddeddf 2022 ar 13 Chwefror 2026, a bydd Senedd Cymru yn ystyried y Rheoliadau i'w cymeradwyo cyn 8 Medi 2027.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Nod y Rheoliadau, yn amodol ar gydsyniad y Senedd, yw sicrhau bod pŵer gwneud rheoliadau yn adran 1 o Ddeddf 2022 ar gael i'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru hyd at 30 Ebrill 2031. Bydd hyn yn rhoi amser, pan fydd y pŵer adran 1 yn Neddf 2022 yn parhau i fod ar gael i Lywodraethau Cymru a Seneddau yn y dyfodol, i sefydlu pa ddulliau gweithredu y maent am eu rhoi ar waith ar gyfer gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru. Mae adolygiad Gweinidogion Cymru o ddiben ac effaith Deddf 2022 a'r mecanwaith deddfwriaethol amgen posibl yn gam cyntaf. Bydd estyn dyddiad dod i ben y pŵer gwneud rheoliadau yn adran 1 o Ddeddf 2022 yn golygu felly y bydd Llywodraeth nesaf Cymru yn gallu gwneud newidiadau mewn modd cyflym a hyblyg os bydd angen.

4.2 Mae'r Memorandwm Esboniadol[1] a gyhoeddwyd pan gyflwynwyd y Bil (a'i ddiwygio yn dilyn pasio Cyfnod 2 yn ystod hynt Deddf 2022 drwy'r Senedd) yn rhoi rhagor o fanylion ynghylch diben ac effaith Deddf 2022.

4.3 I grynhoi, bwriad y pŵer a ddarperir ar ei gyfer gan adran 1 o Ddeddf 2022 yw rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, i gyflwyno newidiadau ag effaith bron ar unwaith i fynd i'r afael â'r pedair sefyllfa a restrir ym mharagraff 3.1 uchod.

[1] Memorandwm Esboniadol, diwygiwyd ar ôl cyfnod 2.pdf

## 5. Ymgynghori

5.1 Ar 8 Medi 2025, gwnaeth ymgynghoriad Llywodraeth Cymru[2] geisio barn ar y mecanweithiau priodol ar gyfer gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru. Er mai diben y cwestiynau a ofynnwyd oedd helpu i lywio, i raddau helaeth, adolygiad Gweinidogion Cymru o Ddeddf 2022 o dan adran 6(1) o'r Ddeddf honno, gofynnwyd cwestiwn penodol ynghylch a ddylid estyn adran 1 o Ddeddf 2022 (y cyfeiriwyd ati yn yr ymgynghoriad fel cymal machlud) i 30 Ebrill 2031 neu ddyddiad arall (cynharach). Wrth baratoi'r adolygiad, ceisiodd Gweinidogion Cymru farn y Senedd mewn sawl ffordd.

5.2 Dangosodd yr ymgynghoriad fod cefnogaeth eang ymhlith y cyrff proffesiynol ym maes trethi i estyn y pŵer yn adran 1 o Ddeddf 2022 i 30 Ebrill 2031. Er bod Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW) a'r Sefydliad Siartredig Trethu (CIOT) o blaid llwybr deddfwriaeth sylfaenol i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru, roeddent hefyd yn gweld teilyngdod yn yr estyniad, gydag ICAEW yn nodi y gallai fod cyfiawnhad dros estyniad er mwyn rhoi'r amser sydd ei angen i ymgynghori a datblygu dull gweithredu amgen. Nododd CIOT y byddai estyn y cymal machlud ar gyfer y pŵer rheoleiddio a ddarperir gan Ddeddf 2022 i 30 Ebrill 2031 yn cynnig mecanwaith a fyddai'n ei gwneud yn bosibl i'r broses gael ei hadolygu'n barhaus. I'r gwrthwyneb, nid oedd y mwyafrif o'r cyhoedd a atebodd y cwestiwn penodol o'r farn y dylid estyn dyddiad dod i ben y pŵer yn adran 1 o Ddeddf 2022.

5.3 Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar 13 Chwefror 2025.

5.5 Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Rheoliadau drafft.

[2] Barn ar y Mecanweithiau Priodol ar gyfer Gwneud Newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 6. Yr opsiynau

**<u>Opsiwn 1 – Peidio ag estyn dyddiad dod i ben y pŵer yn adran 1 o Ddeddf 2022 – Dim Newid</u>**

6.1 Ni fyddai angen y Rheoliadau, ac 8 Medi 2027 fyddai'n parhau fel y dyddiad olaf posibl ar gyfer gwneud rheoliadau o dan adran 1 o Ddeddf 2022.

6.2 **Manteision** – nid yw Llywodraeth Cymru yn gallu nodi mantais yn sgil peidio ag estyn dyddiad dod i ben y pŵer a ddarperir ar ei gyfer yn adran 1 o Ddeddf 2022.

6.3 **Anfanteision** – Pe bai angen ymateb i un o'r pedair sefyllfa y caniateir defnyddio'r pŵer yn adran 1 o Ddeddf 2022 ar eu cyfer, mae'n bosibl na ellid gwneud y newid ar unwaith, oni bai bod proses bil brys yn cael ei defnyddio, neu pe bai effaith y newidiadau mewn bil o'r fath yn dod i rym yn ôl-weithredol.

**<u>Opsiwn 2 – estyn dyddiad dod i ben y pŵer yn adran 1 o Ddeddf 2022 i 30 Ebrill 2031</u>**

6.4 Byddai'r Rheoliadau yn cael eu gwneud gan estyn y dyddiad olaf posibl ar gyfer gwneud rheoliadau o dan adran 1 o Ddeddf 2022 i 30 Ebrill 2031.

6.5 **Manteision** – yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, bydd yr opsiwn hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i barhau i gael pwerau ychwanegol a ddarperir ar eu cyfer gan Ddeddf 2022 i ddiogelu'r refeniw a gynhyrchir gan Ddeddfau Trethi Cymru neu i gyflymu'r broses o gyflwyno gwelliannau i'r trethi sydd o fudd i drethdalwyr Cymru. Bydd hyn yn rhoi amser i'r Senedd nesaf a Gweinidogion Cymru ddatblygu unrhyw fecanweithiau newydd ar gyfer gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru, gan gynnwys pasio deddfwriaeth sylfaenol i ategu'r mecanwaith hwnnw â dull gweithredu newydd ar gyfer y dyfodol.

6.6 **Anfanteision** – nid yw Llywodraeth Cymru yn gallu nodi anfantais yn sgil estyn dyddiad dod i ben y pŵer a ddarperir ar ei gyfer yn adran 1 o Ddeddf 2022.

**<u>Crynodeb o'r opsiynau</u>**

6.7 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

6.8 Mae Opsiwn 2 yn cynnal y sefyllfa bresennol am bum mlynedd arall o'r dyddiad dod i ben presennol er mwyn rhoi'r amser i Lywodraeth nesaf Cymru a'r Senedd nesaf ddatblygu dull gweithredu newydd yn llawn.

### 7. Costau a Manteision

Ceir rhagor o fanylion ynghylch y costau a'r manteision o ran defnyddio'r pŵer a ddarperir ar ei gyfer gan Ddeddf 2022 yn y Memorandwm Esboniadol[3] (tudalennau 25 i 29).

**<u>Opsiwn 1 – Peidio ag estyn dyddiad dod i ben y pŵer yn adran 1 o Ddeddf 2022 – Dim Newid</u>**

7.1 **Costau** – ni fydd unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Fodd bynnag, pe bai angen gwneud newidiadau (cyn i unrhyw fecanweithiau newydd ddod i rym a bod y pŵer gwneud rheoliadau wedi dod i ben), ac mai rheoliadau a wneir gan ddefnyddio adran 1 o bŵer Deddf 2022 fyddai'r opsiwn gorau, yna gall olygu oedi o ran cyflwyno unrhyw newidiadau.

**<u>Opsiwn 2 – estyn dyddiad dod i ben y pŵer yn adran 1 o Ddeddf 2022 i 30 Ebrill 2031</u>**

7.2 **Costau** – ni fydd unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Bydd unrhyw gostau yn y dyfodol yn ddibynnol ar a yw'r pŵer gwneud rheoliadau yn cael ei ddefnyddio a natur unrhyw newidiadau a wneir. Os bydd angen gwneud newidiadau, ac mai'r pŵer yn adran 1 o Ddeddf 2022 fyddai'r opsiwn gorau a bod y pŵer yn parhau i fod ar gael yn sgil estyn y dyddiad dod i ben a ddarperir ar ei gyfer gan y Rheoliadau, yna gall olygu y byddai cyflwyno'r newidiadau hynny yn digwydd ar yr adeg fwyaf priodol. Os caiff rheoliadau eu gwneud gan ddefnyddio'r pŵer yn adran 1 o Ddeddf 2022, bydd memorandwm esboniadol ac asesiad effaith rheoleiddiol yn cyd-fynd â'r rheoliadau hynny.

7.3 **Crynodeb Opsiwn 2** – Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r naill opsiwn neu'r llall. Daw'r manteision o'r cyfleoedd parhaus a all ddeillio yn sgil bod y pŵer gwneud rheoliadau yn adran 1 o Ddeddf 2022 yn parhau i fod ar gael yn ystod y cyfnod dod i ben estynedig. Mae hyn yn arbennig o wir yn ystod y cyfnod cyn i unrhyw fecanwaith newydd gael ei ddatblygu gan Lywodraeth nesaf Cymru a'r Senedd nesaf (pe baent yn dewis gwneud hynny).

## 8. Asesiad Effaith Integredig

8.1 Nid oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau ar gyfer y Rheoliadau. Gan mai dim ond estyn dyddiad dod i ben y pŵer yn adran 1 o Ddeddf 2022 y mae'r Rheoliadau yn ei wneud ac nad ydynt yn gwneud unrhyw newidiadau eraill i'r ffordd y caiff Deddf 2022 ei rhoi ar waith, mae'r Asesiad Effaith Integredig a gwblhawyd ar gyfer Deddf 2022[4] yn parhau i fod yn ddilys (tudalennau 44 i 48).

## 9. Asesu'r gystadleuaeth

9.1 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad oes angen Asesiad llawn o'r

[3] [Memorandwm Esboniadol, diwygiwyd ar ôl cyfnod 2.pdf]
[4] [Memorandwm Esboniadol, diwygiwyd ar ôl cyfnod 2.pdf]

Gystadleuaeth ar gyfer y Rheoliadau, fel y dangosir gan ganlyniad y Prawf Hidlo'r Gystadleuaeth (gweler Tabl A, isod). Os caiff rheoliadau eu gwneud gan ddefnyddio'r pŵer yn adran 1 o Ddeddf 2022, yna byddai asesiad o'r gystadleuaeth yn cael ei gwblhau yn seiliedig ar effaith y rheoliadau hynny.

9.2 Mae dau gam i Asesiad llawn o'r Gystadleuaeth. Mae'r cyntaf, sef y prawf hidlo'r gystadleuaeth, yn asesu a oes risg o effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth. Mae canlyniad y prawf hidlo, a nodir isod yn Nhabl A, yn dynodi nad oes unrhyw effaith sylweddol ddisgwyliedig ar gystadleuaeth ac felly mae'r risg o effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth yn isel. Fel y mae'r prawf hidlo yn ei awgrymu, nid yw ail gam yr asesiad o'r gystadleuaeth (sy'n cynnwys asesiad mwy cynhwysfawr) wedi'i gynnal.

Tabl A - Prawf Hidlo'r Gystadleuaeth

| | |
|---|---|
| 1. Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 10% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| 2. Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 20% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| 3. Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd o leiaf 50% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| 4. A fyddai costau'r rheoliad yn cael effaith lawer mwy sylweddol ar rai cwmnïau nag eraill? | Na fyddent |
| 5. A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau? | Nac ydy |
| 6. A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| 7. A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| 8. A yw newid technolegol sydyn yn un o nodweddion y sector? | Nac ydy |
| 9. A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynhyrchion? | Na fyddai |

## 10. Adolygu ar ôl gweithredu

10.1 Bydd monitro ar ôl gweithredu yn digwydd er mwyn nodi pan gaiff y pŵer yn adran 1 o Ddeddf 2022 ei arfer gan Weinidogion Cymru.